Dyma'r canllawiau ar gyfer:

# Lle / Space

**Labordy Gwneuthurwyr Ffilmiau**

## Cynnwys


**Cyflwyniad .......... 2**

**Meini Prawf Cymhwysedd .......... 3**

**Sut ydw i'n gwneud cais? .......... 4**

- **Dyddiadau Cau .......... 4**
- **Deunyddiau ategol ar gyfer y cais .......... 4**
- **A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais? .......... 6**

**Manylion Cyswllt .......... 6**

**Y Broses Asesu .......... 7**

- **Bydd y cyfranogwyr yn cael clywed eu bod wedi'u dewis o fewn 4 wythnos i'r dyddiad cau. .......... 7**
- **Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel o gynrychiolwyr o Ffilm Cymru, Cyswllt Diwylliant Cymru ac o leiaf un asesydd allanol arbenigol. .......... 7**
- **Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau trwy e-bost. .......... 7**

**Adborth .......... 7**

**Partneriaid .......... 7**

- **Ynglŷn â Ffilm Cymru Wales .......... 7**
- **Ynglŷn â Chyswllt Diwylliant Cymru .......... 8**
- **Ynglŷn â Chymru Greadigol .......... 8**
- **Ynglŷn â LIM | Less Is More .......... 9**

## Cyflwyniad

Mae Ffilm Cymru mewn partneriaeth â Chyswllt Diwylliant Cymru yn cyflwyno Lle / Space: rhaglen datblygu gwneuthurwr ffilmiau sy’n cael ei chynnal dros gyfnod o chwe mis rhwng Mai a Hydref 2025. Mae Lle / Space yn bosibl gyda chymorth Llywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, Rhwydwaith BFI a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r rhaglen yn cwmpasu wythnos o encil creadigol preswyl ym Mhenrhyn Gŵyr, yn ne Cymru, o 4ydd i 9fed Mai 2025 dan arweiniad labordy ffilmiau rhyngwladol LIM | Less Is More, yn ogystal â mentora, dosbarthiadau meistr a sesiynau adeiladu gyrfa pellach dros ddyddiau dilynol a fydd yn cael eu trefnu a'u teilwra yn unol ag anghenion cyfranogwyr unigol.

Os nad yw’r dyddiadau yng Ngŵyr y bosibl i chi, anfonwch e-bost atom - network@ffilmcymruwales.com - i gofrestru eich diddordeb mewn gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

Mae'n bwysig ein bod yn dylunio'r labordy o gwmpas ac mewn partneriaeth â phob unigolyn a ddewiswyd ar ei gyfer, a dyna pam nad yw’r holl fanylion ar gael ymlaen llaw. Fodd bynnag, fel tîm rydyn ni mewn cyswllt ag amrywiaeth gyffrous o wneuthurwyr ffilmiau, cynhyrchwyr ac arbenigwyr y diwydiant a hynny’n rhyngwladol, ac edrychwn ymlaen at allu eich paru â phobl a all gefnogi eich gwaith orau.

Mae labordy Lle / Space yn canolbwyntio ar bobl yng Nghymru sy'n uniaethu fel rhan o'r mwyafrif byd-eang ac sy'n awyddus i ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu ffilm nodwedd sinematig neu sydd eisoes â rhywfaint o brofiad. Wrth ddweud y mwyafrif byd-eang, yr hyn a olygwn yw’r bobl hynny sy'n uniaethu fel Pobl Dduon, Asiaidd, Brown, treftadaeth ddeuol, brodorol i'r de byd-eang, a/neu bobl sydd wedi cael eu diffinio ar sail hil fel lleiafrifoedd ethnig.
Nid oes ffi am y rhaglen hon. Bydd y cyfranogwyr yn cael eu talu £120 y dydd am gymryd rhan ac ni fydd angen iddyn nhw dalu am yr

holl lety a phrydau bwyd angenrheidiol.  Mae cymorth teithio hefyd i fynd i'r elfen breswyl o'r labordy ym Mro Gŵyr, ac oddi yno.

Mae cymorth ychwanegol ar gael os byddwch yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan lawn yn y labordy oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol, b/Byddardod, anabledd, niwroamrywiaeth, colli golwg neu glyw neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol nad ydych yn ei gysylltu â'r derminoleg hon.

Mae Lle / Space yn cynnig lle i chi anadlu, i adeiladu, i greu, ac i syrthio mewn cariad â ffilm unwaith eto. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais!

## Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn gwneud cais i Labordy Gwneuthurwyr Ffilmiau Lle / Space, mae'n rhaid i chi fodloni'r canlynol:

- Wedi eich lleoli yng Nghymru
- Uniaethu fel rhan o'r mwyafrif byd-eang (fel Pobl Dduon, Asiaidd, Brown, treftadaeth ddeuol, brodorol i'r de byd-eang, a/neu bobl sydd wedi cael eu diffinio ar sail hil fel lleiafrifoedd ethnig.
- Mae gennych hanes creadigol ym maes teledu neu ffurf arall ar gelfyddyd ond heb fod yn brif ysgrifennwr, cyfarwyddwr na chynhyrchydd ar ffilm nodwedd neu raglen ddogfen yn ystod y deng mlynedd diwethaf sydd wedi ei dosbarthu'n fasnachol yn y DU (h.y. nid wedi'i hunan-ryddhau). Gall eich profiad a'ch ffocws ar gyfer y labordy fod yn ffilm naratif gweithredu byw, ffilm animeiddiedig neu ffilm ddogfen.
- Yn gallu ymrwymo i ddyddiadau'r encil creadigol ac i ddyddiadau pellach drwy gydol y flwyddyn y cytunwyd arnyn nhw ymlaen llaw.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Gan fod peth o'r cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydyn ni'n rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeiswyr a bod gennym ni brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol a bod yn rhaid i chi wneud cais drwy gyflwyno'r ffurflen gais sydd i'w gweld ar ein gwefan i applications@ffilmcymruwales.com ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol erbyn y dyddiad cau (oni bai y cytunir ar fformat arall o wneud cais i gefnogi mynediad).

Mae gan rai o gwestiynau'r cais opsiynau i gyflwyno atebion mewn fformat ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais. Hefyd, fe allwch chi ymateb i'r cwestiynau naratif yn y ffurflen drwy alwad fideo neu alwad ffôn fyw gyda'n tîm. Dylid trefnu hyn o leiaf wythnos cyn y dyddiad cau. Bydd yr alwad yn cael ei recordio a'i rhannu gyda'n panel.

### Dyddiadau Cau

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw:  12pm Dydd Mawrth 25ain Mawrth 2025

### Deunyddiau ategol ar gyfer y cais

Bydd angen i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch ffurflen gais:

- A CV
- Sampl o waith blaenorol
- Fideo 3-5 munud o hyd o'ch hun fel a ganlyn:

Saethiad fideo gwe-gamera wedi'i dynnu ar un tro, mor syml â phosibl, dim golygu.  Ceisiwch siarad â ni'n uniongyrchol yn hytrach na darllen o destun.

Adroddwch wrthym ni, yn syml iawn, stori'r ffilm rydych chi eisiau

ei datblygu, gan fynd â ni yn agos at frwydr eich prif gymeriad(au); cyn belled ag y bo modd, rhowch weledigaeth i ni o ble mae'r stori'n mynd (dechrau, canol a diwedd), beth fydd yn gyrru'r stori, yn ogystal â'r awyrgylch. Ceisiwch fynd â ni ar daith a thynnwch ni i mewn hyd yn oed os ydych chi mewn cyfnod cynnar iawn o ddatblygu.

P'un a ydych chi'n ysgrifennwr, cynhyrchydd neu gyfarwyddwr, anfonwch y gwaith rydych chi'n fwyaf balch ohono AC sy'n adrodd stori yn y ffordd fwyaf gweledol neu sinematig. Yn ddelfrydol, dylech fod yn cyflawni'r un rôl ar y gwaith hwn ag yr hoffech ei dilyn yn y diwydiant, ond gallwch gyflwyno gwaith lle roedd eich rôl yn gysylltiedig yn sylweddol ag ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu, os nad oes gennych enghreifftiau o waith lle rydych wedi arwain fel ysgrifennwr, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd. Mae'n rhaid i chi ddweud yn glir yn eich cais pa rôl y gwnaethoch chi ei chwarae yn y gwaith hwn.

Dylai **ysgrifenwyr** gyflwyno sgript sampl hyd llawn (e.e. ar gyfer pennod deledu, ffilm, drama lawn) ac nid oes angen iddo fod yr un peth â'r syniad rydych chi am ei ddatblygu yn y labordy. Os yw'r sampl ar ffurf fer - llai nag 20 tudalen - yna dylid darparu **dwy** sampl.

Dylai **cyfarwyddwyr** gyflwyno dolen i ddarn blaenorol o waith.

**Ysgrifenwyr-gyfarwyddwyr:** Gallwch anfon un o'r uchod, neu ddau os ydych yn dymuno.

**Cynhyrchwyr**: Dylech gyflwyno dolen i ddarn blaenorol o waith. Rydym yn argymell dewis UN enghraifft o waith y teimlwch sy'n dangos orau y math o straeon rydych chi am eu hadrodd fel cynhyrchydd.

Y ffordd orau i gyflwyno dogfennau ategol yw fel un ddolen i blatfform storio ar-lein fel Google Drive neu Dropbox, wedi'i rhoi yng nghorff eich ffurflen gais, yn hytrach nag fel atodiadau unigol. Gwnewch yn siŵr bod y dogfennau ar ffurf PDF a bod modd lawrlwytho fideos neu ffeiliau sain i'w gwylio.

## A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais?

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n f/Byddar, yn Anabl, yn niwroamrywiol, neu sydd yn colli eu golwg neu eu clyw, mae cymorth pellach ar gael hefyd i gwblhau cais. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddec sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn helpu cyn i chi wneud cais (gweler y Manylion Cyswllt isod).

# Manylion Cyswllt

Rhaid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau i network@ffilmcymruwales.com oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull arall o gyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau mynediad, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Emily Morus Jones, Cydlynydd Talent**: Emily@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch 02922 676711 a gadewch neges yn rhoi eich enw,

rhif, amseroedd cyfleus o'r dydd i ffonio, a dweud eich bod yn gofyn am gymorth mynediad ar gyfer labordy Lle / Space.

**Nuno Mendes, Rheolwr Prosiect Cyswllt Diwylliant Cymru:** nuno.mendes@watch-africa.co.uk

## Y Broses Asesu

Bydd y cyfranogwyr yn cael clywed eu bod wedi'u dewis o fewn 4 wythnos i'r dyddiad cau.

Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel o gynrychiolwyr o Ffilm Cymru, Cyswllt Diwylliant Cymru ac o leiaf un asesydd allanol arbenigol.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau trwy e-bost.

## Adborth

Dim ond nifer cyfyngedig o leoedd allwn ni fforddio eu cynnig yn Labordy Lle / Space ac felly bydd yn rhaid i ni wrthod llawer o bobl anhygoel. Os byddwch chi'n aflwyddiannus, gallwch ofyn am adborth byr drwy e-bost, ffôn neu alwad fideo. Rydyn ni'n derbyn llawer iawn o geisiadau ac nid oes gennym yr adnoddau i roi adborth manwl i bawb sy'n gwneud cais.

## Partneriaid

### Ynglŷn â Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru. Ymrown i hyrwyddo a chynnal diwydiant ffilmiau cryf i Gymru; un y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Gwnawn hyn drwy ddarparu cyllid a hyfforddiant i wneuthurwyr ffilmiau addawol a sefydledig o Gymru, cynnig profiadau sinematig

cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru, a datblygu sgiliau a llwybrau gyrfa newydd i bobl drwy amryw raglenni hyfforddiant.

Ymhlith y credydau diweddar mae *Chuck Chuck Baby, Unicorns, Kensuke's Kingdom* a *Timestalker*. Mae'r cynyrchiadau sydd i ddod yn cynnwys *Brides, Mr Burton, Madfabulous* a *The Man In My Basement*. www.ffilmcymruwales.com

## Ynglŷn â Chyswllt Diwylliant Cymru

Mae Cyswllt Diwylliant Cymru yn cynorthwyo talent amrywiol i ddod o hyd i gyfleoedd yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru. Caiff ei redeg gan y gymuned ac ar gyfer y gymuned, gan hyrwyddo swyddi a chyfleoedd, a chynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n awyddus i ymuno â'r sector, neu sy'n chwilio am eu gig nesaf.

## Ynglŷn â Chymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i hyrwyddo a thyfu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Ein ffocws yw cynnig cyllid, cymorth ac arweiniad ar draws ystod o sectorau, o Ffilm a Theledu, Animeiddio – gan gynnwys Technoleg Ymgolli, AR/VR – hyd at Gemau, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan leoli Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.

Rydym yn angerddol am greu cyfleoedd i bobl yn y diwydiant. Boed hynny'n hyfforddiant lefel mynediad neu'n datblygu ac uwchsgilio pobl sydd eisoes yn gweithio yn ein sectorau creadigol. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn pobl o ystod amrywiol o gefndiroedd, boed yn bobl ifanc, yn newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant neu'n rhai sydd eisoes yn rhan o'r gweithlu talentog a phrofiadol.

O waith datblygu mewn stiwdios i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, datblygwyr gemau annibynnol a chynyrchiadau rhyngwladol mawr, rydym yn darparu cyllid a chyngor arbenigol ac yn helpu pobl

yn y diwydiant i greu cysylltiadau a fydd yn meithrin datblygiad prosiectau creadigol o bob maint. Rydym hefyd yn hyrwyddo cynaliadwyedd, gwaith teg, a chyfle cyfartal i bawb sy'n gweithio ar draws ein sectorau creadigol.

Boed yn cefnogi talent wedi'i meithrin gartref neu'n gweithio i ddenu prosiectau creadigol rhyngwladol i Gymru, ein nod bob amser yw cryfhau'r diwydiant yn y tymor hir a chreu cyfleoedd cyffrous a gwerth chweil i genedlaethau'r dyfodol.

I gael mwy o wybodaeth ewch i cymrugreadigol.cymru a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:
Instagram @cymrugreadigol | X @CymruGreadigol | LinkedIn cymru-greadigol-creative-wales

## Ynglŷn â LIM | Less Is More

Mae LE GROUPE OUEST yn labordy ffilmiau rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn Llydaw (Ffrainc). Gyda gwneuthurwyr ffilmiau ac ysgrifenwyr o 60 o wledydd wedi'u hyfforddi yn eu plith, a gwobrau mawr wedi'u hennill ym mhob gŵyl fawr, mae LGO wedi creu dull methodolegol unigryw ar gyfer datblygu sgriptiau, law yn llaw â Phlatfform Ymchwil gymhwysol ar gyfer Adrodd Straeon, y StoryTANK. Gwnaeth Le Groupe Ouest greu LIM | Less Is More, ar y cyd ag Ewrop Greadigol a phartneriaid o 10 gwlad.

I gael mwy wy o wybodaeth: https://lim-lessismore.eu/